

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANRHAEDR
YNG NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 22ain O FAI 2017 YN
YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.00 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Barri Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Elfed Williams, Iwan Jones, Stanley Williams, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Iona Edwards-Jones, Jill Evans, Falmai Evans, Hywel Davies.

2. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 2016 Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR AM Y TYMOR 2017/18.
Etholwyd y Cyngorydd Bari Evans yng Nghadeirydd y Cyngor am y tymor 2017/18.

4. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM Y TYMOR 2017/18.
Etholwyd y Cyngorydd Iona Edwards-Jones yn Is-gadeirydd y Cyngor am y tymor 2017/18.

5. CYNRYCHIOLAETH Y CYNGOR AR FUDIADAU ERAILL YN Y GYMUNED.

- A. Un Llais Cymru – Philip Williams a Hywel Davies.
- B. Llywodraethwr Ysgol Pant Pastynog – Iona Edwards-Jones.
- C. Llywodraethwr Ysgol Bro Cinmeirch – Elfed Williams.
- D. Bwrdd yr Elusennau – Jill Evans, Stanley Williams a Philip Williams.
- E. Ystafell Gymunedol – Barri Evans.

6. LWFANS BLYNYDDOL Y CADEIRYDD AM Y TYMOR 2017/18.
Penderfynwyd yr aelodau i roi Lwfans Cadeirydd o £250.00 i'r Cadeirydd Barri Evans am y flwyddyn 2017/18.